

Darllen ac ysgrifennu





Darllen ac ysgrifennu

Cas a chwils

Cafodd y cas lledr silindrig yma ei wneud i gadw cwils ynddo. Byddai'r cas yn cael ei wneud drwy dorri'r lledr i'r siâp cywir; ei bwytho, ei fwydo mewn dŵr, a'i fowldio wedyn dros ffurfydd pren. Ar ôl cael ei orffen, byddai'r cas yn atal dŵr, ac yn ddigon cryf i gadw'r cwils ynddo yn ddiogel.


Pen ysgrifennu oedd cwilsyn a byddai cwils yn cael eu gwneud o'r plu hiraf yn adenydd gwyddau neu elyrch. Byddai coesyn y bluen yn $1/3$ cm o leiaf o ran diamedr. Câi'r plu eu mwydo dros nos cyn i'r rhan noeth o'r coesyn gael ei galedu mewn tywod poeth iawn. Byddai rhan uchaf y bluen yn cael ei thynnu, i'w cadw allan o ffordd eich llaw wrth ichi ysgrifennu, a byddai nib yn cael ei dorri yn y pen blaen. Byddai'r nib yn colli ei awch wrth gael ei ddefnyddio, ond gallai gael ei dorri eto dair neu bedair gwaith cyn cael ei daflu.

I ddefnyddio cwils, byddai pobl yn eu dipio nhw mewn inc. Roedd llawer o 'ryseitiau' at greu inc, ond roedd yr inc mwyaf parhaol yn cael ei wneud drwy gymysgu afalau'r deri, copr sylffad, sylffad fferrus a gwm arabig.



Sut rydyn ni'n gwybod am gasys a chwils?

Disgrifiadau a darluniau mewn dogfennau Tuduraidd, a phethau sydd wedi'u canfod yn ystod gwaith cloddio archaeolegol.



Darllen ac ysgrifennu

Tabled a phwyntil

Yn oes y Tuduriaid, y tudalennau pren hyn, wedi'u llenwi â chŵyr, ac wedi'u cysylltu â'i gilydd, oedd eu llyfrau nodiadau. Roedd y pwyntil metel yn cael ei ddefnyddio i grafu nodiadau yn y cŵyr. Gallai'r cŵyr gael ei doddi drosodd a throsodd, i greu tudalen newydd i ysgrifennu arni, ac yn aml byddai'r cŵyr yn goch, gwyrdd neu ddu, am fod y lliwiau hyn yn dangos yr ysgrifennu yn dda.


Byddai'r tabled a'r pwyntilau'n cael eu cadw'n ddiogel mewn cas lledr, a byddai'r cas yn cael ei glymu â dolen ledr wrth wregys y perchennog. Byddai'r cas yn cael ei greu drwy dorri'r lledr i'r siâp cywir, ei bwytho, ei fwydo mewn dŵr, a'i fowldio dros ffurfydd pren. Byddai patrwm yn cael ei greu drwy stampio neu gerfio'r lledr ar ôl iddo sychu.

Dechreuodd papur gael ei ddefnyddio'n fwy eang yn oes y Tuduriaid, a rhoddodd pobl y gorau i ddefnyddio tabledi cŵyr.



Sut rydyn ni'n gwybod am dabledi a phwyntilau?

Disgrifiadau a darluniau mewn dogfennau Tuduraidd, a phethau sydd wedi'u canfod yn ystod gwaith cloddio archaeolegol.



Darllen ac ysgrifennu

Felwm llo

Roedd y deunydd gwyn cryf yma yn cael ei ddefnyddio i ysgrifennu arno. Mae dwy ochr y felwm yn addas i ysgrifennu arnyn nhw a byddai'n cael ei ddefnyddio at ddogfennau pwysig, fel llawysgrifau darluniadol, a llyfrau.

Mae felwm yn cael ei wneud o groen llo. Mae'n cael ei fwydo mewn calch i dynnu'r blew, y baw a'r saim. Wedyn byddai'n cael ei wnïo ar ffrâm bren a'i gadw'n llaith er mwyn iddo ymestyn. Byddai'n cael ei grafu hefyd nes ei fod yn denau ac yn llyfn. Byddai'r tensiwn yn cael ei gynyddu yn ystod y broses yma, i sicrhau bod y felwm mor denau â phosibl i ysgrifennu arno. Pan fyddai'r felwm yn ddigon tenau, byddai'n cael ei adael i sychu, ei dynnu oddi ar y ffrâm ac wedyn ei dorri i greu tudalennau llai i'w defnyddio gan y copiwr.

Memrwn croen dafad

Roedd y deunydd cryf, tryleu yma yn cael ei ddefnyddio i ysgrifennu arno, ar gyfer dogfennau pwysig fel llythyrau a dogfennau cyfreithiol. Dim ond ar yr ochr lle roedd y cig y gallwch chi ysgrifennu.

Mae memrwn croen dafad yn cael ei wneud yn yr un ffordd â felwm, ond mae ychydig bach yn deneuach yn aml, ac yn fwy seimllyd am fod croen dafad yn cynnwys mwy o fraster.



Sut rydyn ni'n gwybod am felwm a memrwn?

Mae llawer o lawysgrifau, llyfrau a dogfennau canoloesol, sydd wedi'u gwneud o felwm a memrwn, wedi cael eu cadw mewn llyfrgelloedd ledled y byd.

